**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (Y PÎL A48)**
**GORCHYMYN TRAFFIG 2024 (TERFYN CYFLYMDER 40MYA)**

**HYSBYSIR DRWY HYN** bod y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd ("y cyngor") yn bwriadu gwneud Gorchymyn wrth ddefnyddio'r grymoedd dan adran 84 o'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a holl bwerau galluogi eraill ac mewn ymgynghoriad â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 y Ddeddf fydd yn golygu:-

1. Ni chaiff unrhyw unigolyn yrru unrhyw gerbyd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr, ac eithrio cerbydau sydd wedi'u heithrio, ar hyd y ffyrdd ac ochrau'r ffyrdd sy'n cael eu cynnwys yn atodlen y Rhybudd hwn.

Nid yw'r gwaharddiad a gyflwynir yn y Gorchymyn arfaethedig yn berthnasol i gerbyd sydd wedi'i eithrio. Yn y Gorchymyn, mae "cerbyd sydd wedi'i eithrio" yn golygu: (a) unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys at ddibenion a nodir yn adran 87 o'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu, ac sy'n cael ei yrru gan berson ar y pryd yn amodol â gorchymyn aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig-(i) mewn ymateb, neu mewn ymarfer i ymateb, i argyfwng diogelwch cenedlaethol gan berson sydd wedi'i hyfforddi i yrru ar gyflymder uchel: neu (ii) at ddibenion hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymder uchel. Mae "lluoedd arbennig" yn golygu'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae cynnal eu galluoedd yn gyfrifoldeb Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig neu sydd ar y pryd yn amodol i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**ATODLEN (TERFYN CYFLYMDER 40MYA)**
**Y PÎL A48**

(i) O bwynt sy'n unol â ffin y fwrdeistref sirol rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot, i'r de am bellter oddeutu 70 medr (77 llath).

Mae copi o'r dogfennau a roddwyd yn cynnwys y Gorchymyn arfaethedig a datganiad o resymau'r Cyngor dros greu'r Gorchymyn ar gael drwy gysylltu ag un ai traffictransportation@bridgend.gov.uk neu Jane.Dessent@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio drwy'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmer Ffôn **:** 01656 643643 (dyfynwch gyfeirnod cyfreithiol TRA001-1448/JPD neu maent ar gael am ddim o Lyfrgell y Pîl, Canolfan Bywyd y Pîl, Helig Fan, Y Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr CF33 6BS yn ystod yr oriau hyn: Dydd Llun - Dydd Gwener (9:00-18.00) a dydd Sadwrn (9:00-15:00) neu maent ar gael ar-lein yn: https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/trwyddedu/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/. Dylai'r gwrthwynebiadau neu gynrychiolaethau'r cynigion, ynghyd ag ar ba sail y cawsant eu gwneud gael eu hanfon yn ysgrifenedig wedi eu cyfeirio at y sawl sydd wedi llofnodi isod i'r cyfeiriad isod, neu drwy e-bost i Jane.Dessent@bridgend.gov.uk, erbyn **18/07/2024**.

Os ydych yn cael unrhyw drafferth ymateb yn ysgrifenedig, neu'n dymuno cael y rhybudd mewn fformat arall er enghraifft, print bras, sain, braille neu ffacs cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod neu drwy'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmer Ffôn : 01656 643643 cyf cyfreithiol TRA001-1448/JPD. Noder y gall yr holl gynrychiolaethau a dderbynnir gael eu hystyried yn gyhoeddus gan y Cyngor ac y gall sylwedd unrhyw gynrychiolaethau [ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n eu cyflwyno] fod ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg, bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Saesneg yn cael ei hateb yn Saesneg ac ni fydd gohebu yn Saesneg yn arwain at oedi wrth ymateb.

DYDDIEDIG: 20/06/2024

K Watson, Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddiol –Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB/ K Watson, Chief Officer - Legal, HR & Regulatory Services – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.

TRA001-1448 N1